Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cygnor Bwrdeistref Sirol

AGENDA

# PWYLLGOR CRAFFU ADFYWIO A DATBLYGU CYNALIADWY

## 10.00 AM DYDD GWENER, 3 RHAGFYR 2021

## O BELL TRWY TEAMS

**Rhaid gosod pob ffôn symudol ar y modd distaw ar gyfer parhad y cyfarfod**

**Rhan 1**

1. Croeso a galw'r rhestr

2. Cyhoeddiad y Cadeirydd

3. Datganiadau o fuddiannau

4. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol *(Tudalennau 5 - 22)*
    - 17 Medi 2021
    - 22 Hydref 2021

5. Cyflwyniad Cymdeithas Twneli'r Rhondda *(Tudalennau 23 - 40)*

6. Diweddariad ar Noddi Asedau

7. Craffu Cyn Penderfynu
   Dewis eitemau priodol o agenda'r Cabinet ar gyfer craffu cyn penderfynu (amgaeir adroddiadau ar gyfer yr Aelodau Craffu)

8. Blaenraglen Waith *(Tudalennau 41 - 44)*

9. Eitemau brys
   Unrhyw eitemau brys (boed yn gyhoeddus neu wedi'u heithrio) yn ol disgresiwn y Cadeirydd yn unol ag Adran 100B (4) (b) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

10. Mynediad i gyfarfodydd
Mynediad i gyfarfodydd i benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r eitem ganlynol yn unol ag Is-adran 100a(4) a (5) Deddf Llywodraeth Leol 1972 a'r paragraffau eithriedig perthnasol o Ran 4 Atodlen 12a y Ddeddf uchod.

**<u>Rhan 2</u>**

11. Craffu Eitem/Eitemau Preifat Cyn Penderfynu
Dewis eitemau preifat priodol o agenda cyn craffu Bwrdd y Cabinet (Adroddiadau Bwrdd y Cabinet yn amgaeedig ar gyfer yr aelodau craffu).

**K.Jones**
**<u>Prif Weithredwr</u>**

**Canolfan Ddinesig**
**Port Talbot** **Dydd Gwener, 26 Tachwedd 2021**

**<u>Aelodaeth y Pwyllgor:</u>**

**Cadeirydd:** **S.K.Hunt**

**Is-gadeirydd:** **R.L.Taylor**

**Cynghorwyr:** D.Cawsey, C.J.Jones, H.N.James, S.M.Penry, S.Pursey, S.Rahaman, N.T.Hunt, S.Bamsey, J.Evans a/ac S.A.Knoyle

**<u>Nodiadau:</u>**

*(1) Os yw aelodau'r pwyllgor neu'r rhai nad ydynt yn aelodau'r pwyllgor am gynnig eitemau perthnasol i'w cynnwys ar yr agenda cyn cyfarfodydd y dyfodol, rhaid iddynt roi gwybod i'r Prif Weithredwr/Cadeirydd 8 niwrnod cyn y cyfarfod.*

*(2) Os yw'r rhai nad ydynt yn aelodau'r pwyllgor am fod yn bresennol ar gyfer eitem o ddiddordeb, mae'n rhaid rhoi rhybudd ymlaen llaw (erbyn 12 hanner dydd ar y diwrnod cyn y cyfarfod). Gall y rhai nad ydynt yn aelodau'r pwyllgor siarad ond nid oes ganddynt hawl i bleidleisio, cynnig nac eilio unrhyw gynnig.*

*(3) Fel arfer, ar gyfer trefniadau cyn craffu, bydd y Cadeirydd yn argymell eitemau gweithredol sydd ar ddod i'w trafod/herio. Mae hefyd yn agored i aelodau'r pwyllgor ofyn i eitemau gael eu trafod - er y gofynnir i'r aelodau ddewis a dethol yma o ran materion pwysig.*

*(4) Gwahoddir aelodau perthnasol Bwrdd y Cabinet hefyd i fod yn bresennol yn y cyfarfod at ddibenion Craffu/Ymgynghori.*

*(5) Gofynnir i aelodau'r Pwyllgor Craffu ddod â'u papurau ar gyfer Bwrdd y Cabinet i'r cyfarfod.*

Mae’r dudalen hon yn fwriadol wag

**PWYLLGOR CRAFFU ADFYWIO A DATBLYGU CYNALIADWY**

**(O Bell Trwy Teams)**

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Gwener, 17 Medi 2021**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd S.K.Hunt** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd R.L.Taylor** |
| **Cynghorwyr**: | D.Cawsey, C.J.Jones, H.N.James, S.M.Penry, S.Pursey, S.Rahaman, N.T.Hunt, S.Bamsey, J.Evans a/ac S.A.Knoyle |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | S.Brennan, C.Plowman, N.Headon, C.Jones, C.Millis, A.Spooner-Cleverly, N.Bray a/ac K.Jones |
| **Gwahoddedigion:** | Cynghorwyr A.Wingrave, L.Jones a/ac D.Lewis |

1. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Mehefin, 2021.

2. **DIWEDDARIAD AR GYNLLUN GWEITHREDU CASTELL-NEDD PORT TALBOT ARCHWILIO CYMRU**

Hysbysodd swyddogion yr Aelodau am y Cynllun Gweithredu Adfywio diweddaredig yn dilyn archwiliad a gynhaliwyd gan Archwilio Cymru.

Roedd yr Aelodau'n falch bod Swyddogion wedi ystyried llawer o'r awgrymiadau a wnaed gan Archwilio Cymru. Nodwyd bod y sylwadau'n ymwneud â chyfathrebu'n galonogol; pe bai'r cyngor yn parhau i wneud cynnydd gyda'r argymhellion a nodir yn y cynllun gweithredu, gellid manteisio ar brosiectau yn y dyfodol, a gallai roi hyder i'r cyhoedd yn yr hyn yr oedd y cyngor yn ceisio'i gyflawni. Codwyd pwysigrwydd Buddion Cymunedol hefyd; roedd yn galonogol bod y cyngor wedi cydnabod ffordd well o ddelio â'r mater hwn, ac y bydd Swyddogion o hyn ymlaen yn cael eu cynnwys ar gam cynnar

ar gyfer pob prosiect. Soniwyd bod hyn yn fuddiol er mwyn i'r cyhoedd fod yn ymwybodol o'r budd uniongyrchol o brosiect.

Cydnabu swyddogion y gellid gwneud gwelliannau bob amser i wahanol elfennau o wasanaethau; gallai rhai o'r rhwystrau i hyn fod yn gysylltiedig â systemau, adnoddau neu gyfuniad o'r ddau. Dywedwyd bod y cynllunydd cerrig milltir a gwblhawyd gyda'r Tîm Cyfryngau wedi'i adfywio, er mwyn iddynt gael syniad llawer gwell o ba brosiectau a oedd ar ddod; roedd swyddogion yn obeithiol y bydd hyn yn datrys rhai o'r problemau sy'n codi.

Yn dilyn y drafodaeth, cytunwyd y byddai'r Pennaeth Eiddo ac Adfywio yn darparu adroddiad i'r Pwyllgor ar fuddion cymunedol.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd unrhyw ddiweddariadau pellach ar fformiwla Llywodraeth Cymru ar gyfer llifogydd. Cadarnhawyd bod y datganiad sefyllfa yr un fath ag a adroddwyd yn flaenorol i'r Pwyllgor, a bod llawer o broblemau'n ymwneud â pharthau llifogydd ar draws y Fwrdeistref Sirol o hyd; roedd yn hysbys bod y mapiau llifogydd yn newid, gellid tynnu tir oddi ar y rhestr parthau llifogydd neu ei ychwanegu at y rhestr, a gallai'r rhesymeg y tu ôl i hyn yn aml fod yn anodd i bobl ei deall. Fodd bynnag, soniwyd bod yr wybodaeth am ardaloedd llifogydd yn gwella o flwyddyn i flwyddyn, a'i bod yn dod yn fwy cadarn a fydd yn helpu'r cyngor i wneud y penderfyniadau gorau posib o ran defnyddio tir. Tynnodd swyddogion sylw at y ffaith bod gan y Fwrdeistref Sirol rai ardaloedd heriol o ran lliniaru llifogydd, ac o ran bwrw ymlaen â datblygiadau roedd yn broses ddrud ac roedd risg, oherwydd mae'n bosib na fydd canlyniadau a ddymunir yn cael eu cyflawni ar ddiwedd y broses.

Gofynnwyd a oedd proses lle gallai'r awdurdod herio'r penderfyniadau y mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn eu gwneud o ran tir llifogydd. Cadarnhaodd swyddogion mai dim ond fesul achos y gellid herio CNC, gan y byddai angen profi nad oedd y datblygiad dan sylw yn mynd i rwystro unrhyw un arall; roedd hon yn broses anodd a hir, a fyddai'n golygu llawer o waith ymgynghori gan arbenigwyr allanol. Dywedwyd bod problemau llifogydd yn dod yn fwy cyffredin, a bod CNC yn gwneud eu gorau gyda'r adnoddau wrth law, er mwyn deall ble bydd yr effeithiau. Hysbyswyd yr Aelodau pan fydd y cyngor yn darparu ei ddata ar gyfraddau llif etc., y bydd CNC yn edrych ar y data ac efallai y bydd angen newid eu model ychydig; felly, bydd eu model bob amser yn statws sy'n newid yn gyson, a oedd yn peri pryder i ddatblygwyr gan y byddai'n ychwanegu at yr elfen risg.

Gofynnwyd i swyddogion a oedd diweddariad ar y cynnydd o gael arian o Gronfa Codi'r Gwastad. Cadarnhawyd na chafwyd unrhyw newyddion pellach am y Gronfa Codi'r Gwastad na'r Gronfa Adnewyddu Cymunedol; pe bai'r cyngor yn llwyddo i gael arian o'r gronfa hon, roedd ganddynt broffil gwariant ar waith am weddill y flwyddyn. Soniodd swyddogion fod llawer o sefydliadau a fu'n rhan o'r broses ymgeisio wedi gorfod newid eu proffil gwariant yn llwyr oherwydd amserlenni a'r faith nad ydynt wedi cael cadarnhad o'r arian. Y gobaith oedd y byddai'r cyngor wedi clywed pe bai'n llwyddiannus ai peidio yn ystod cyfnod yr haf, ond nid oedd gan Swyddogion unrhyw arwydd o hyd o bryd y byddent yn derbyn y penderfyniad; roedd hyn yn peri problem i'r cyngor gan y byddai'n anodd cael y gwariant allan erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, sef mis Mawrth 2022. Cadarnhaodd swyddogion fod angen iddynt ddechrau gwneud penderfyniadau'n fuan, gan fod angen cwblhau gwaith ar y prosiectau; fodd bynnag, oherwydd nad oedd unrhyw arwydd ynghylch p'un a oedd y cyngor wedi bod yn llwyddiannus ai peidio, yr her fydd gorfod gwneud y gwaith mewn risg ac efallai na fyddai modd ailhawlio rhai o'r costau.

Cynhaliwyd trafodaeth mewn perthynas â'r Gronfa Ffyniant Gyffredin; mewn perthynas â hyn, tynnodd yr Aelodau sylw at y ffaith y byddai'n fuddiol cydweithio ag Aelodau Lleol ar gyfer ardaloedd canol trefi. Dywedwyd y byddai'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn dilyn y Gronfa Codi'r Gwastad; y gobaith oedd y byddai'r amserlenni a roddwyd ar gyfer hyn yn well na'r rhai blaenorol, er mwyn i Swyddogion gyflwyno ceisiadau'n effeithiol. Hysbyswyd yr Aelodau fod Swyddogion eisoes wedi dechrau gweithio ar syniadau prosiect i'w trafod ag Aelodau yn y dyfodol agos; bydd hyn yn fuddiol gan y bydd yr Aelodau wedi gweld rhai o'r prosiectau yr oedd Swyddogion yn gobeithio'u cyflwyno, cyn y digwyddiad.

Holwyd a oedd syniad ynghylch beth fyddai'r blaenoriaethau ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Soniodd swyddogion fod Llywodraeth y DU wedi datgan ei bod wedi cael ei llethu gan geisiadau ar gyfer y Gronfa Codi'r Gwastad, a dyna pam yr oedd oedi yn y penderfyniad; roedd hyn yn arwydd na fydd digon o arian ar gael oherwydd nifer y ceisiadau a gyflwynwyd.

Nododd y pwyllgor yr adroddiad.

3. **<u>CRAFFU CYN PENDERFYNU</u>**

Dewisodd y pwyllgor graffu ar yr eitemau canlynol ar agenda Bwrdd y Cabinet:

<u>Prydlesu 5-6 Heol Llundain, Castell-nedd i Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu</u>

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad mewn perthynas â phrydles newydd ar gyfer 5-6 Heol Llundain yng Nghastell-nedd, a fyddai'n galluogi parhau i ddarparu gwasanaethau ymyriad camddefnyddio sylweddau.

Roedd yr adroddiad a ddosbarthwyd yn cyfeirio at y ffaith nad oedd yn hysbys a oedd cyflawnwyr Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (ASB) yn defnyddio'r gwasanaethau yn yr eiddo dan sylw; gofynnwyd a oedd unrhyw gynlluniau i fonitro hyn. Dywedwyd na ellid cysylltu'r Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yng nghanol tref Castell-nedd yn uniongyrchol â phawb a oedd yn defnyddio'r gwasanaethau yn Heol Llundain. Darparwyd sicrwydd fod llawer o waith yn cael ei wneud, o ran gorfodi a chefnogaeth, i sicrhau ei fod yn hysbys pwy oedd cyflawnwyr yr YG ac i sicrhau bod yr unigolion hyn, lle y bo'n bosib, yn cael mynediad at wasanaethau cefnogi; cyfeiriwyd at Gynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg y Diamddiffyn sy'n Cysgu ar y Stryd (SV MARAC), a hysbyswyd yr Aelodau fod cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal rhwng cydweithwyr ar lefel weithredol. Soniwyd bod Heddlu De Cymru wedi darparu gwybodaeth am y rheini sy'n cyflawni ymddygiad gwrthgymdeithasol i grŵp craidd o unigolion, ac mae Swyddogion wedi awgrymu y dylid ymchwilio'n ddwfn i'r achosion hyn i nodi ffactorau megis, a oeddent yn cael y cymorth yr oedd ei angen arnynt neu a oedd angen anogaeth bellach arnynt.

Gofynnwyd a oedd cydberthynas rhwng y cyfleuster yn Heol Llundain a'r YG yng nghanol tref Castell-nedd. Roedd swyddogion yn cydnabod bod problem ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y Fwrdeistref Sirol, ond ni ellid rhoi'r bai ar bawb sy'n mynd i'r cyfleuster penodol hwn; pe na bai'r gwasanaethau cefnogi ar waith, byddai'r problemau YG yn llawer gwaeth. Soniwyd bod y gwasanaethau ar waith i helpu unigolion i wella a sefydlogi'u bywydau, a'u hatal rhag troseddu, aildroseddu a/neu eu hatal rhag cael eu hecsbloetio. Hysbyswyd yr Aelodau fod y Bwrdd Cynllunio Ardal yn cychwyn ar brosiect trawsnewid mawr a fydd yn edrych ar ddarparu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau ar draws y rhanbarth a sut y gellir eu gwella; bydd rhan o'r gwaith hwn yn cynnwys nodi a oedd gwasanaethau yn y lle iawn ac os cawsant eu cyflunio yn y ffordd gywir. Ychwanegwyd bod lleoliad y gwasanaethau hyn yn bwysig gan

fod angen iddynt fod mewn ardaloedd lle gall pobl gael mynediad atynt.

Gofynnodd yr Aelodau pam y nodwyd bod yr eiddo'n cael ei brydlesu am rent rhad. Tynnwyd sylw at y ffaith bod yr adeilad wedi'i brynu a'i adnewyddu gyda chyfalaf y Gronfa Gweithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau (SMAF) Llywodraeth Cymru, a'r tâl yn ôl am hyn oedd y byddai'r eiddo'n cael ei restru fel eiddo rhent rhad.

Soniwyd y byddai unigolion na fyddant byth yn ymwneud â'r gwasanaethau cefnogi, ond roedd yn bwysig i'r cyngor wneud y broses yn haws i'r rheini a allai ymwneud ag ef; roedd rhai enghreifftiau o waith a oedd wedi'i gwblhau i helpu unigolion gyda hyn yn cynnwys allgymorth pendant a sefydlu'r gwasanaeth presgripsiwn mynediad cyflym.

Mynegwyd pryderon ynglŷn â'r ffaith bod y cyfleuster yn agos at Erddi Victoria, a bod adroddiadau wedi bod am unigolion yn mynd i'r ardal hon i ddefnyddio sylweddau; roedd yn bwysig ceisio sicrhau nad oedd camddefnyddio sylweddau ac YG yn effeithio ar y sawl a oedd yn byw yn y gymuned. Amlygwyd, lle bynnag y byddai'r math hwn o gyfleuster yn cael ei leoli, y byddai bob amser ardal lle bydd grwpiau o unigolion yn cyfarfod ac yn dewis ymddwyn mewn ffordd benodol.

Cafwyd trafodaeth bellach ynglŷn â chamddefnyddio sylweddau. Eglurwyd bod camddefnyddio sylweddau'n cynnwys camddefnyddio cyffuriau ac alcohol; roeddent yn mynd law yn llaw, er bod unigolion yn gwneud penderfyniadau gwahanol gan ddibynnu a oeddent dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau. Dywedodd swyddogion fod angen targedu unigolion a oedd yn cam-drin?? pobl ddiamddiffyn, yn ogystal â dioddefwyr eu hunain.

Tynnwyd sylw at y ffaith bod ymyriad cynnar yn allweddol, ond deallwyd bod adnoddau'n broblem; Rhoddodd swyddogion sicrwydd i'r Pwyllgor fod yr asiantaethau cywir ar waith er mwyn brwydro yn erbyn y problemau dan sylw a mynd i'r afael â hwy. Nodwyd mai'r ymagwedd bresennol gan Heddlu De Cymru oedd mynd ati i orfodi, ond hefyd edrych ar sut y gallant annog pobl i gael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt.

Yn dilyn craffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

<u>Cynllun Datblygu Gwledig 2014-2020</u>

Rhoddwyd yr wybodaeth ddiweddaraf a throsolwg i'r Aelodau am Gynllun Datblygu Gwledig 2014-2020, a oedd yn cynnwys manylion yr hyn a gyflawnwyd yng Nghastell-nedd Port Talbot yn ystod y rhaglen gyfredol.

Roedd yn amlwg bod rhai o'r prosiectau diweddaraf fel petaent yn cyflawni amcanion yn well na rhai o'r prosiectau cynharach; holwyd beth oedd wedi sbarduno'r newid hwn yn y prosiectau diweddarach.

Dywedodd swyddogion fod mwy o arian ar gael ar ddechrau'r broses; byddai pobl yn cyflwyno'u syniadau a byddai'r tîm yn ariannu rhywfaint ohono gyda system gadarn ar waith. Yn dilyn y gwerthusiad canol tymor yn 2020, nodwyd bod ymagwedd fwy penodol wedi'i gosod wrth geisio trefnu bod y gwaith hwn yn cyd-fynd â Chynllun Corfforaethol ac elfennau tlodi'r cyngor; roedd hyn yn unol â'r Strategaeth Datblygu Lleol (SDLl) i sicrhau bod rhai o'r syniadau corfforaethol yn cael eu cyflawni. Hysbyswyd yr Aelodau fod y gwerthusiad canol tymor yn rhoi cyfle i Swyddogion wneud newidiadau, gan ystyried unrhyw faterion a oedd wedi codi o'r blaen, oherwydd cymhwysedd, neu gamddealltwriaeth o'r hyn y gellid ei gyflawni yn y broses hon; cwblhawyd llawer o waith ymgysylltu i roi gwell dealltwriaeth i bobl o'r broses, ac i geisio cael rhagor o bobl i ymgysylltu gan gynnwys y rheini oedd heb wneud hynny o'r blaen, a cheisio newid meddylfryd pobl o ran yr hyn yr oeddent yn credu bod y rhaglen yn ymwneud ag ef. Ychwanegwyd bod y rhaglen wedi'i hymestyn i fis Mawrth 2022 er mwyn defnyddio'r tanwariant; roedd achosion o'r pandemig wedi effeithio ar ffactorau fel amserlenni.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd unrhyw arian ar ôl i brosiectau ychwanegol gael eu datblygu, cyn i'r rhaglen ddod i ben yn 2022. Esboniwyd bod yr adroddiad a ddosbarthwyd yn nodi bod 14 o brosiectau newydd wedi bod o fewn y 12 mis diwethaf, ond roedd hyn wedi newid i 16 yn ddiweddar; felly roedd yr arian yn lleihau. Cadarnhaodd swyddogion fod £81,000 ar ôl ar hyn o bryd, ond roedd un prosiect gyda'r Grŵp Gweithredu Lleol (GGLl) yr oedd angen gwneud penderfyniad yn ei gylch, a phrosiect arall a oedd yn mynd i gael ei gyflwyno i'r GGLl yn fuan; roedd y prosiectau hyn yn werth cyfanswm o £64,000, felly pe baent yn cael eu cymeradwyo byddai tua £17,000 ar ôl. Soniwyd nad oedd sicrwydd y byddent yn cael eu cymeradwyo, ac fel y cyfryw gallai'r swm sy'n weddill amrywio. Roedd swyddogion yn dal i weithio gydag unigolion a oedd yn cyflwyno syniadau; bydd y broses hon ar sail y cyntaf i'r felin ar gyfer gweddill y cronfeydd.

Cynhaliwyd trafodaeth ynglŷn â chyfleoedd ariannu yn y dyfodol a sut roedd y cyngor yn mynd i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a allai ddod i'r amlwg. Tynnwyd sylw at y ffaith bod gan y GGLl unigolion amrywiol a oedd yn ymwneud â'r grŵp gan gynnwys pobl fusnes, y trydydd sector ac Aelodau Lleol; nodwyd ei fod yn rhwydwaith da iawn ar gyfer yr ardaloedd gwledig, a byddai Swyddogion yn gobeithio gweld hyn yn parhau neu o leiaf i gadw'r cysylltiadau. O ran cyllid yn y dyfodol, dywedwyd bod Swyddogion yn trafod hyn yn rhanbarthol gyda Llywodraeth Cymru, er mwyn nodi'r camau a'r prosesau nesaf; Roedd swyddogion yn awyddus i nodi'r hyn a oedd yn digwydd nesaf gyda'r cyllid newydd.

Codwyd pwysigrwydd lobïo, yn enwedig ar gyfer ardaloedd lle mae lefelau uchel o dlodi ac amddifadedd; defnyddiwyd yr arian o'r rhaglen hon yn dda yn y meysydd a oedd yn profi hyn. Gofynnwyd a fydd y lobïo'n parhau ac a oedd cyfle i ehangu'r rhaglen hon ymhellach. Cadarnhaodd swyddogion fod posibilrwydd y gellir ei hehangu tan 2024; darparwyd cyfleoedd i ehangu ymhellach, ond dim ond gyda'r arian yr oedd gan bob awdurdod lleol ar ôl Nodwyd bod y cyngor wedi gofyn am ehangiad, ond nid oedd digon o arian ar gyfer prosiectau pellach; llwyddodd y cyngor i ailbroffilio'r arian er mwyn gallu cael blwyddyn neu ddwy ychwanegol ar waith (hyd at fis Mawrth 2022). Hysbyswyd yr Aelodau fod bwlch rhwng y cyllid a oedd ar gael yn awr a'r cyllid newydd a oedd ar ddod; felly roedd yn bwysig i Swyddogion gael gwybod beth roedd Llywodraeth Cymru yn ei gynllunio.

Esboniodd yr Aelodau fod cymhlethdod sicrhau cyllid weithiau'n effeithio ar grwpiau cymunedol, ac yn golygu na fyddai llawer o syniadau prosiect gwych yn cael eu cyflawni oherwydd yr anhawster o fynd drwy'r broses. O ran cefnogi'r gymuned, esboniwyd bod y Cynllun Datblygu Gwledig yn gam cyntaf a'i fod i fod yn arloesol ac yn greadigol, felly'n rhagorol ar gyfer cefnogi grwpiau cymunedol; roedd hwyluswyr hefyd sy'n gweithio gyda'r grwpiau i helpu i ddatblygu'r prosiect.

Trafododd y Pwyllgor y materion a oedd yn ymwneud ag arian cyfatebol; Roedd swyddogion yn cydnabod yr anawsterau gyda hyn ac roeddent wedi dweud wrth Lywodraeth Cymru am eu pryderon. Soniwyd, lle y bo'n bosib, y gellid defnyddio amser gwirfoddolwyr yn hytrach na defnyddio arian corfforol, gan ei fod yn bwysau i ddarparu arian cyfatebol.

Soniwyd y gallai fod angen gwaith cynnal ar rai o'r prosiectau a restrwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd; gofynnwyd a oedd cost cynnal wedi'i chynnwys yn y rhaglen neu a fyddai cymorth ariannol ar gael. Cadarnhaodd swyddogion fod strategaeth ymadael ac elfen gynaliadwyedd wedi'u cynnwys yn y broses ymgeisio, felly byddai angen i gynigwyr feddwl am ddyfodol y prosiect. Dywedwyd nad oedd arian penodol ar gyfer cynnal prosiectau, ond mae'r tîm yn helpu prosiectau i nodi cyllid pellach os oes angen.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd ceisiadau'n dal i gael eu derbyn ac a oedd dyddiad cau. Amlygwyd bod y tîm yn dal i dderbyn ceisiadau ar hyn o bryd ac y byddai'n croesawu unrhyw syniadau i'w cyflwyno; roedd un ymresymiad am hyn o ganlyniad i'r ffaith nad oedd sicrwydd y byddai'r GGLl yn derbyn y prosiectau a gyflwynwyd. O ran amserlenni, soniwyd y byddai'r rhaglen yn dod i ben ym mis Mawrth 2022, ond roedd angen neilltuo ychydig fisoedd i Swyddogion i'w chau a'i gweinyddu; ar hyn o bryd roedd angen gorffen prosiectau tua mis Rhagfyr/Ionawr, a oedd yn amserlen dynn i roi'r prosiectau ar waith.

Holwyd a fyddai'r Etholiad ym mis Mai 2022 yn cael unrhyw effaith ar gynnydd y rhaglen; pe na bai unrhyw Aelodau Lleol, sy'n ymwneud â phrosiectau, yn cael eu hailethol. Cadarnhaodd swyddogion na fyddai hyn yn effeithio ar y broses gan y byddai angen neilltuo'r arian i brosiectau ym mis Rhagfyr, a oedd cyn i'r Etholiad gael ei gynnal.

Yn dilyn craffu, nodwyd cynnwys yr adroddiad.

## 4. BLAENRAGLEN WAITH

Nododd yr Aelodau'r Blaenraglen Waith Craffu Adfywio a Datblygu Cynaliadwy ar gyfer 2021/22.

Amlygwyd bod gweithdy Blaenraglen Waith y Pwyllgor wedi'i drefnu ar gyfer dydd Mawrth 21 Medi.

**CADEIRYDD**

# PWYLLGOR CRAFFU ADFYWIO A DATBLYGU CYNALIADWY

## (O BELL TRWY TEAMS)

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Gwener, 22 Hydref 2021**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd S.K.Hunt** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd R.L.Taylor** |
| **Cynghorwyr**: | D.Cawsey, C.J.Jones, H.N.James, S.M.Penry, S.Pursey, S.Rahaman, N.T.Hunt, S.Bamsey, J.Evans a/ac S.A.Knoyle |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | C.Morris, S.Brennan, Mrs.J.Davies, N.Headon, A. Collins, C.Roach a/ac C.Davies |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr D.Jones, L.Jones a/ac S.Jones |

---

1. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

Hysbyswyd y pwyllgor am gamgymeriad yn yr adroddiad canlynol ar Agenda Bwrdd y Cabinet:

- Eitem 8 ar yr Agenda – Dangosyddion Perfformiad Allweddol 2019/2020 – Chwarter 1 (1 Ebrill 2021 – 30 Mehefin 2021)

Nodwyd y dylai teitl yr adroddiad ddarllen '*Dangosyddion Perfformiad Allweddol 2020/2021 – Chwarter 1 (1 Ebrill 2021 – 30 Mehefin 2021)*'

Yn dilyn y diweddariad, nododd yr aelodau'r camgymeriad.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Gwnaeth yr aelodau canlynol ddatganiad o fuddiant:

Y Cyng. S Rahaman - Parthed. Eitem 7 ar Agenda Bwrdd y Cabinet – Cymorth Grant COVID-19 ar gyfer Busnesau Lleol o fis Mawrth 2020 i'r presennol, gan ei fod yn

berchen ar fusnes lleol o fewn y Fwrdeistref Sirol a gafodd gymorth grant.

Y Cyng. S Pursey - Parthed. Eitem 7 ar Agenda Bwrdd y Cabinet - Cymorth Grant COVID-19 ar gyfer Busnesau Lleol o fis Mawrth 2020 i'r presennol, gan ei fod yn Ymddiriedolwr Llyfrgell Gymunedol Tai-bach sydd wedi derbyn cymorth grant.

Y Cyng. S Knoyle - Parthed. Eitem 7 ar Agenda Bwrdd y Cabinet - Cymorth Grant COVID-19 ar gyfer Busnesau Lleol o fis Mawrth 2020 i'r presennol, gan mai ef yw Cyfarwyddwr Clwb Rygbi Glyn-nedd ac mae ganddo hefyd fusnes lleol o fewn y Fwrdeistref Sirol sydd wedi derbyn cymorth grant.

Y Cyng. R. Taylor - Parthed. Eitem 7 ar Agenda Bwrdd y Cabinet - Cymorth Grant COVID-19 ar gyfer Busnesau Lleol o fis Mawrth 2020 i'r presennol, gan ei bod yn Ymddiriedolwr Llyfrgell Gymunedol Tai-bach sydd wedi derbyn cymorth grant.

Y Cyng. D Cawsey - Parthed. Eitem 7 ar Agenda Bwrdd y Cabinet - Cymorth Grant COVID-19 ar gyfer Busnesau Lleol o fis Mawrth 2020 i'r presennol, gan ei fod yn Ymddiriedolwr ac yn Gyfarwyddwr Anweithredol ar gyfer elusennau a sefydliadau amrywiol a dderbyniodd gymorth grant.

Y Cyng. S Hunt - Parthed. Eitem 7 ar Agenda Bwrdd y Cabinet - Cymorth Grant COVID-19 ar gyfer Busnesau Lleol o fis Mawrth 2020 i'r presennol, gan ei fod yn Gadeirydd ac yn aelod o

elusennau a sefydliadau amrywiol a dderbyniodd gymorth grant.

Y Cyng. F. James - Parthed. Eitem 7 ar Agenda Bwrdd y Cabinet - Cymorth Grant COVID-19 ar gyfer Busnesau Lleol o fis Mawrth 2020 i'r Presennol, gan ei fod yn Gadeirydd Awdurdod Porthladd Castell-nedd a gafodd gymorth grant.

Y Cyng. M. Hunt - Parthed. Eitem 7 ar Agenda Bwrdd y Cabinet - Cymorth Grant COVID-19 ar gyfer Busnesau Lleol o fis Mawrth 2020 i'r presennol, gan ei fod yn berchen ar fusnes lleol o fewn y Fwrdeistref Sirol a gafodd gymorth grant.

Y Cyng. C Jones - Parthed. Eitem 7 ar Agenda Bwrdd y Cabinet - Cymorth Grant COVID-19 ar gyfer Busnesau Lleol o fis Mawrth 2020 i'r presennol, gan ei fod yn swyddog yng Nghlwb Rygbi'r Allt-wen ac yn berchen ar fusnes lleol o fewn y Fwrdeistref Sirol a gafodd gymorth grant.

## 3. <u>COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL</u>

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Gorffennaf, 2021.

## 4. <u>ADRODDIAD AM FUDDION CYMUNEDOL</u>

Rhoddwyd adroddiad i'r aelodau ar allbynnau a chanlyniadau cyflwyno budd i'r gymuned drwy gyfnod adeiladu Ysgol Gyfun Cefn Saeson.

Dywedwyd bod holl brosiectau adeiladu'r cyngor wedi'u cysylltu â Fframwaith Rhanbarthol Contractwyr De Cymru; a bod gan bob un ohonynt fudd i'r gymuned cytundebol o fewn y prosiectau adeiladu. Soniwyd eu bod yn seiliedig ar recriwtio a hyfforddiant wedi'u targedu; er enghraifft derbyn pobl ddi-waith leol, darparu cyfleoedd profiad

gwaith, derbyn prentisiaethau lleol gan ddefnyddio'r gadwyn gyflenwi leol a chefnogi mentrau cymunedol.

Esboniodd swyddogion eu bod wedi penderfynu defnyddio Ysgol Gyfun Cefn Saeson fel enghraifft gan eu bod, gwaethaf y pandemig, wedi mynd y tu hwnt i'w holl dargedau; ar wahân i'r targed cyfranogiad ysgolion a oedd yn anodd ei gyflawni oherwydd y pandemig. Tynnwyd sylw at y ffaith y gobeithiwyd cyflawni'r targed hwn erbyn diwedd y flwyddyn nesaf.

Cynhaliwyd trafodaeth ynglŷn â chynaliadwyedd y prosiectau. Nodwyd bod y cyngor wedi ariannu'r cynllun prentisiaeth a rennir yn rhannol, sydd wedi galluogi cwblhau profiad gwaith a phrentisiaethau a rennir; mae hyn wedi rhoi cyfleoedd i unigolion gael swyddi lleol gan eu bod wedi cael eu uwchsgilio a'u hyfforddi i wneud hynny. Hysbyswyd yr aelodau fod unigolion di-waith hirdymor wedi'u cyflogi drwy'r Prosiect Gweithffyrdd a Chymunedau am Waith; roedd y contractwr hefyd wedi gweithio gyda mentrau cymdeithasol lleol gan gynnwys cangen menter gymdeithasol Cymorth i Fenywod, Thrive, ac wedi rhoi cyfleoedd cyflogaeth iddynt.

Nododd y pwyllgor yr adroddiad.

## 5. CYFLWYNIAD CYMDEITHAS TWNELI'R RHONDDA

Cadarnhawyd y byddai Cyflwyniad Cymdeithas Twneli'r Rhondda yn cael ei ohirio i gyfarfod y pwyllgor yn y dyfodol oherwydd amgylchiadau nas rhagwelwyd.

## 6. CRAFFU CYN PENDERFYNU

Grant Eiddo Masnachol: 23 Maes yr Eglwys, Castell-nedd SA11 3LL

Derbyniodd y pwyllgor adroddiad ynghylch y cynnig i ariannu'n rhannol welliannau'n i ymddangosiad allanol yr eiddo masnachol yn 23 Maes yr Eglwys, Castell-nedd SA11 3LL.

Esboniwyd y byddai'r grant hwn yn gwella cymeriad Maes yr Eglwys ac Ardal Gadwraeth Castell-nedd yn ffisegol, gan fod y rendro presennol mewn cyflwr gwael a bellach yn berygl diogelwch i gerddwyr gan fod y rendro'n malurio ac yn syrthio i'r stryd. Ychwanegodd swyddogion y byddai'r grant yn cael ei ddefnyddio i ailwneud Hen Stryd y Farchnad ac ystlysluniau'r adeilad.

Cyfeiriwyd at feysydd targed y Grant Eiddo Masnachol yr oedd un ohonynt yn ganolfannau masnachol penodol. Cadarnhawyd y gellid cynnig y grant i ganolfannau masnachol amrywiol ar draws y Fwrdeistref Sirol gyfan; fodd bynnag, roedd yn rhaid iddynt fod mewn man hynod weledol. Hysbyswyd yr aelodau mai bwriad y Grant Eiddo Masnachol oedd gwella'r strydlun, felly'r adeiladau a oedd yn weladwy iawn i'r cyhoedd.

Holodd yr aelodau sut byddai'r adeilad yn edrych ar ôl iddo gael ei orffen, a thynnodd sylw at bwysigrwydd ymddangosiad gweledol Ardal Gadwraeth Castell-nedd. Cadarnhaodd swyddogion y byddant yn cysylltu â chydweithwyr yn y Gwasanaeth Cynllunio i sicrhau bod y gwaith rendro newydd yn cyd-fynd â'r ardal gadwraeth.

Yn dilyn craffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

<u>Cymorth Grant COVID-19 ar gyfer Busnesau Lleol o fis Mawrth 2020 i'r presennol</u>

(Y Cyng. S Rahaman, y Cyng. N Hunt, y Cyng. S Knoyle a'r Cyng. Cadarnhaodd y Cynghorydd C Jones ei fudd ar y pwynt hwn a gadawodd y cyfarfod)

Darparwyd adroddiad diweddaru i'r aelodau ar weithgareddau'r Gwasanaeth Datblygu Economaidd wrth brosesu cymorth ariannol COVID-19 ar gyfer busnesau lleol o fis Mawrth 2020 i fis Awst 2021.

Nodwyd bod Llywodraeth y DU, ym mis Mawrth 2020, wedi cyhoeddi y byddai'r wlad yn dechrau cyfyngiadau symud; yn dilyn hyn, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddent yn defnyddio system ardrethi annomestig i ddarparu taliadau grant brys i fusnesau ledled Cymru. Cadarnhaodd swyddogion, bryd hynny, i fod yn gymwys i gael cymorth grant, fod angen i fusnesau naill ai fod yn derbyn cymorth ardrethi busnes bach, bod yn gweithredu o fewn y sectorau manwerthu, hamdden a lletygarwch neu fod yn elusen gofrestredig neu'n glwb chwaraeon cymunedol; i ddechrau roedd y grantiau hyn oddeutu £10k a £25k, ac roedd lefel y cymorth yn dibynnu ar werth ardrethol eu heiddo.

Hysbyswyd yr aelodau iddi ddod i'r amlwg yn gyflym y byddai galw mawr am wasanaethau, o ran rhoi cyngor ac arweiniad i fusnesau lleol i'w helpu i gael gafael ar y cymorth perthnasol; mewn ymateb i hyn, neilltuwyd tri aelod o'r Tîm Datblygu Economaidd yn syth i gefnogi'r Tîm Ardrethi Busnes. Dywedwyd bod hyn wedi galluogi'r Tîm Ardrethi Busnes i ganolbwyntio ar brosesu'r grantiau a darparu

taliadau i fusnesau mor effeithlon â phosibl; canolbwyntiodd y Tîm Datblygu Economaidd ar ymdrin â'r holl ymholiadau a oedd yn dod i mewn, a oedd yn eithaf sylweddol ar y pryd. Ychwanegwyd bod y timau, drwy gydol tri mis cyntaf y cyfyngiadau symud, wedi gallu darparu gwasanaeth cefnogol ac ymarferol i helpu busnesau lleol drwy'r cyfnod anodd.

Amlinellodd swyddogion rai enghreifftiau o faterion a gododd yn ystod y cyfnod hwn, y bu'n rhaid iddynt eu goresgyn; megis y ffaith nad oedd llawer o safleoedd ar restr ardrethu busnes y cyngor, nid oedd rhai landlordiaid wedi cofrestru eu heiddo fel rhai amlfeddiannaeth ac roedd rhai unedau wedi'u rhannu ac nid oedd ardrethi busnes wedi cael gwybod am y newid. Ychwanegwyd nad oedd llawer o'r busnesau lleol a oedd yn hawlio cymorth ardrethi ar gyfer busnesau bach yn hysbysu ardrethi busnes bod newid perchnogaeth; arweiniodd hyn at lawer iawn o waith yr oedd angen ei gwblhau er mwyn i'r eiddo busnes gael ei gofrestru gyda'r swyddfa brisio, nad oedd yn dasg hawdd ar y pryd oherwydd bod y swyddfeydd prisio ledled Cymru yn cael eu llethu gan yr un materion. Hysbyswyd y pwyllgor fod llawer o fusnesau'n ei chael yn anodd gwneud cais am y grantiau gyda'r ffurflenni cais ar-lein, felly bu'n rhaid i swyddogion roi cymorth gyda hyn i'w helpu drwy'r broses.

Dywedwyd, yn ddyddiol, fod llawer o wybodaeth yn cael ei rhyddhau gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ynghylch y rhaglenni cymorth amrywiol; yn ogystal â cheisio ymdrin â'r holl alwadau ac ymholiadau, bu'n rhaid i'r timau hefyd sicrhau eu bod yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf gan gynnwys cymhwysedd y cynlluniau amrywiol.

Cyfeiriwyd at y cynllun cymorth incwm hunangyflogedig, y tynnwyd sylw ato fel un o'r cynlluniau allweddol oherwydd bod llawer o'r busnesau wedi'u cofrestru fel rhai hunangyflogedig; nid oedd y busnesau hyn o reidrwydd yn gallu cael gafael ar y grantiau eraill, felly roedd y cynllun cymorth hwn yn hanfodol iddynt.

Yn ystod y tri mis cyntaf, amlygwyd bod y Tîm Datblygu Economaidd wedi helpu mwy na 850 o fusnesau lleol i wneud cais am y cyllid grant; ymdriniwyd â thros 3,500 o negeseuon e-bost yn ogystal â llawer o alwadau ffôn, a chefnogwyd 400 o safleoedd newydd ganddynt i gofrestru ar system sgorio busnes y cyngor. Soniwyd bod gwerth £40 miliwn o grantiau wedi'u darparu yn y tri mis cyntaf hynny a bod dros 3,000 o fusnesau lleol wedi'u cefnogi.

Hysbyswyd y pwyllgor fod y Tîm Datblygu Economaidd wedi mynd ymlaen i ddarparu naw rownd arall o grantiau ar ran Llywodraeth Cymru dros y 14 mis canlynol, a ddaeth ar wahanol adegau; roedd y cynllun cyntaf a gyflwynwyd yn cefnogi dechrau busnesau newydd. Ychwanegwyd eu bod hefyd wedi darparu tair rownd o'r gronfa gweithwyr llawrydd a ddarparodd gymorth i fusnesau ac unigolion a oedd yn gweithio yn y sectorau celfyddydau, treftadaeth a chreadigol; yn ogystal â darparu chwe rownd o gyllid dewisol a oedd yn darparu cymorth i fusnesau bach yr effeithiwyd arnynt gan y cyfyngiadau symud amrywiol. Yn gyffredinol yn ystod y cyfnod hwn, nodwyd bod y tîm wedi prosesu 1,700 o geisiadau gwerth £2.4miliwn; roedd y rhain yn grantiau sylweddol ar raddfa fach a oedd yn amrywio rhwng £1.5k a £2.5k. Fodd bynnag, dywedwyd bod y grantiau hyn yn bwysig iawn i alluogi llawer o'r busnesau hynny i oroesi.

Cyfeiriodd swyddogion at y dyfyniadau gan fusnesau lleol, a gynhwyswyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, a oedd yn dangos eu gwerthfawrogiad o'r gefnogaeth a gafwyd.

Nodwyd bod darparu'r grantiau hyn yn bwysig i'r timau gan eu bod yn eu helpu i ymgysylltu’n fwy â'r economi sylfaenol; y busnesau bach sy'n gwasanaethu anghenion lleol. Tynnodd swyddogion sylw at y ffaith y byddai'r elfen hon yn bwysig wrth symud ymlaen; yn enwedig gan nad oedd llawer o'r busnesau'n debygol o fod wedi cysylltu â'r cyngor o'r blaen. Cadarnhawyd bod gan swyddogion bellach well dealltwriaeth o'r busnesau hyn gan gynnwys eu gweithrediadau a pha gymorth y bydd ei angen arnynt i symud ymlaen wrth adfer o'r pandemig.

Cynhaliwyd trafodaeth ynghylch y gwersi a ddysgwyd a chynlluniau wrth symud ymlaen; dros y 18 mis diwethaf roedd wedi bod yn arbennig o anodd i lawer o fusnesau, ond roedd rhai wedi addasu'n dda drwy ailfodelu eu gweithrediadau, cyflwyno gwasanaethau newydd a mynd ati i ddod o hyd i ffyrdd newydd o gynhyrchu incwm. Dywedwyd y bydd llawer o'r newidiadau y bu'n rhaid i fusnesau eu gwneud yn dod yn barhaol, ac roedd swyddogion yn rhagweld y bydd y galw am gyllid buddsoddi’n tyfu'n sylweddol dros y blynyddoedd nesaf. Hysbyswyd yr aelodau fod y Cabinet wedi cytuno'n ddiweddar i gyllid mewnol ychwanegol o £260,000 i gefnogi adferiad busnesau lleol ar ôl y pandemig, a'r rhai sy'n ceisio gwneud buddsoddiadau i hyrwyddo twf wrth symud ymlaen; paratowyd nodyn briffio ar gyfer Aelodau, sy'n amlinellu'r broses ymgeisio ac asesu arfaethedig ar gyfer dosbarthu'r gronfa honno. Yn ogystal â hyn, nodwyd bod Llywodraeth Cymru hefyd wedi gofyn i Adrannau Datblygu

Economaidd ledled Cymru ddarparu grant adfer busnes ar eu rhan; mae hyn yn tynnu sylw at y ffaith eu bod yn symud i ffwrdd o gyllid brys, ac yn symud tuag at y cyfnod adfer busnes. Cadarnhawyd bod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) ar hyn o bryd yn arwain y trafodaethau â phob un o'r 22 Awdurdod Lleol, a gobeithiai swyddogion gael gwybod faint yn union o arian a gaiff ei glustnodi i Gastell-nedd Port Talbot yn ystod yr wythnosau nesaf; cytunwyd y byddai unrhyw gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru yn cael ei integreiddio i'r cynlluniau cymorth grant ar gyfer busnesau presennol. Roedd swyddogion yn gobeithio y byddai'r cyngor mewn sefyllfa i ddechrau hyrwyddo a darparu arian Llywodraeth Cymru'r wythnos gyntaf ym mis Tachwedd, cyn lansio cronfa twf a buddsoddiad Castell-nedd Port Talbot ym mis Ionawr 2022.

Tynnodd yr aelodau sylw at brosesau'r grant adfer busnes, gan ofyn a oedd hyn yn gosod y cefndir ar gyfer cyllid yn y dyfodol; a fyddai cynghorau'n cael eu defnyddio i ddarparu grantiau fel hyn yn y dyfodol. Nodwyd bod Llywodraeth Cymru, ar ddechrau'r pandemig, wedi sylweddoli gwerth y Timau Datblygu Economaidd ar draws yr holl Awdurdodau Lleol yn gyflym; yn arbennig eu gallu a'r ystod o gysylltiadau a oedd ganddynt. Dywedwyd bod Llywodraeth Cymru wedi mynegi wrth symud ymlaen ei bod am barhau i weithio gydag Awdurdodau Lleol o ran hyn, gan ei bod wedi sylweddoli nad oedd gan ei model y gallu i ddarparu'r mathau hyn o grantiau. Soniodd swyddogion fod y berthynas waith rhwng y cyngor a Llywodraeth Cymru, drwy gydol y pandemig, wedi bod yn gadarnhaol; roedd LlC wedi bod yn gefnogol iawn. Ychwanegwyd bod potensial ar gyfer rhagor o gyfranogiad gan Lywodraeth y DU yn y gwaith hwn wrth symud ymlaen, a olygai y byddai angen i Awdurdodau Lleol ddysgu ac addasu ymhellach.

Yn dilyn hyn, holwyd a fyddai digon o allu a chefnogaeth o fewn y timau i barhau â'r gwaith hwn os mai dyma'r broses 'arferol' wrth symud ymlaen. Tynnodd swyddogion sylw at y ffaith ei bod yn glir iawn drwy gydol y pandemig, er bod y timau'n perfformio'n dda iawn, nad oedd amgylchiadau'r gwaith yn gynaliadwy; Roedd swyddogion yn gweithio ar benwythnosau a dyddiau hir iawn, ac roedd y gwasanaeth yn dibynnu ar ewyllys da'r timau i wneud hyn. Cydnabu swyddogion fod angen edrych ymlaen at adfer o'r pandemig a thu hwnt, ac edrych ar sut y gellid darparu adnoddau effeithiol i'r timau; roedd yr economi'n mynd i newid, ac roedd yn bwysig deall yr hyn a oedd ei angen i gefnogi busnesau i oroesi a ffynnu.

Diolchodd y pwyllgor i'r timau am eu gwaith caled drwy gydol y cyfnod anodd hwn.

Yn dilyn craffu, nodwyd cynnwys yr adroddiad.

(Ailymunodd y Cyng S Rahaman, y Cyng. N Hunt, y Cyng. S Knoyle a'r Cyng. C Jones â'r cyfarfod o'r pwynt hwn ymlaen)

7. **BLAENRAGLEN WAITH**

Nododd yr Aelodau Flaenraglen Waith Craffu Adfywio a Datblygu Cynaliadwy ar gyfer 2021/22.

8. **EITEMAU BRYS**

Oherwydd yr angen i ymdrin â'r materion sydd wedi'u cynnwys yng Nghofnod Rhif. 11 isod, cytunodd y Cadeirydd y gellid codi'r eitemau hyn yng nghyfarfod heddiw fel eitemau brys yn unol ag Offeryn Statudol rhif 2290 (fel y'i diwygiwyd).

Rhesymau dros y brys:
Oherwydd yr elfen amser.

9. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD**

**PENDERFYNWYD:** Gwahardd y cyhoedd yn unol ag Adran 100A (4) a (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 o'r eitemau busnes canlynol a oedd yn cynnwys datganiadau posib o wybodaeth eithriedig, fel a ddiffinnir ym Mharagraff 14 ac Adran 4 o Atodlen 12A y Ddeddf uchod.

10. **CRAFFU EITEM/EITEMAU PREIFAT CYN PENDERFYNU**

Craffodd y pwyllgor ar yr eitem breifat ganlynol ar agenda Bwrdd y Cabinet:

Cynnig arfaethedig i gaffael Tir a Garej Ddomestig ar gyffordd yr A48 â Stryd y Dŵr, Margam ar gyfer y cynllun llwybr troed/llwybr beicio arfaethedig sy'n cysylltu Eglwys Nunydd a Pharc Dewi Sant, Margam

Rhoddwyd adroddiad i aelodau ynghylch cynnig arfaethedig i gaffael Tir a Garej Ddomestig ar gyffordd yr A48 â
Stryd y Dŵr, Margam ar gyfer y cynllun llwybr troed/llwybr beicio arfaethedig sy'n cysylltu Eglwys Nunydd a Pharc Dewi Sant, Margam.

Yn dilyn craffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

11. **CYNNIG ARFAETHEDIG I WAREDU TIR YNG NGLANNAU'R HARBWR I GOLEG CNPT AR Y CYD Â'R CYNNIG ARFAETHEDIG I GAFFAEL TIR YN FABIAN WAY GAN LYWODRAETH CYMRU**

Rhoddwyd adroddiad i'r aelodau a oedd yn manylu ar y bwriad i werthu tir yng Nglannau'r Harbwr i Goleg CNPT ynghyd â'r bwriad i Gaffael Tir yn Fabian Way gan Lywodraeth Cymru.

Yn dilyn craffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

**CADEIRYDD**

# Rhondda Tunnel

Twnnel Y Rhondda Tunnel Society

## Presentation to NPT Council 3rd. December 2021

Steve Mackey – Chair
Tony Moon – Project Secretary

## Project Costs

## Creating a "Must Visit" attraction

## Blaengwynfi

# Project Costs

Detailed Plans Created by out Technical Subcommittee after consulting with leading UK tunnel engineers

Physical work will take 18 months

Project Cost includes:

- Visitors' Centres
- Micro-hydro schemes at both sides

Recently validated by Corderoy (Quantity Surveyors)

Total Project Cost: **£13.111M**


# South Wales has Two Abandoned Long Tunnels

Abernant-Merthyr



RCT has
a Portal of
Both Tunnels

Rhondda




Active Travel Route – Merthyr-Aberdare

Continued Public Funding

but

Little public support


Merthyr Council lobbies hard for support

Longest in Europe

Seen more as a Visitor Attraction

Huge Public Support
but no public funding

...this is how it sometimes feels



Strong
support from NPT Council can balance

# Current Situation

Both Tunnels are owned by Westminster DfT – Grant Shapps MP

DfT will transfer them to the Welsh Govt. with a small sum
(£60k for Rhondda)

but


Welsh Govt. wants Several Million Pounds


Chris Bryant MP is approaching DfT on behalf of
Welsh Govt. for Funds

RCT Council are working on a Heritage Lottery Fund application

The Rhondda  Tunnel has 526 alcoves





Sound and Light Displays in Bare Wall Sections
Again, plenty of tunnel!




TWNNEL Y RHONDDA TUNNEL

Proposed Display Section

Scale: 1:125




Twnnel Y Rhondda Tunnel Society

# Standedge Canal Tunnel

between Manchester & Huddersfield

"Let me tell you a secret about the Standedge tunnel.
One they know but won't even whisper."

5500yds (3 miles) long; 645ft. above sea level


It takes 3 hours to go through by boat

"...What they won't tell you, the secret they keep to themselves,
is that it's also very boring."

We can't let visitors feel the same about the Rhondda Tunnel

# Some Long Cycling & Walking Tunnels

Tunnels Open All Year with Tarmac Surface and Lighting




Rhondda - An hour to walk from end to end



Blaengwynfi 1970s Tunnel is deep



Blaengwynfi today

Deep hole needed to access tunnel and lots of spoil to be moved

# At Blaengwynfi

Twnnel Y Rhondda Tunnel Society

Current Plan is to excavate the Approach Cutting

but


hyperTunnel have approached us with a new tunnelling technology
to create an extension to the tunnel

hyperTunnel

Less disruption & much less spoil


We are also looking at a “Cut & Cover” alternative

# Blaengwynfi



hyperTunnel

Twnnel Y Rhondda Tunnel Society



1. Pilot hole(s)
2. Holes outside the planned tunnel wall
3. Inject grout (liquid cement)
4. Dig out centre
5. Spray concrete wall

Green – Spoil removed and deposited






Extension will be entirely in NPT Land – Independent of Westminster or Welsh Govt.

Rhondda Tunnel Society has been campaigning since 2015

Huge political support, but endless reports and delays

We want to see if we can raise the funds for a Blaengwynfi Extension independently of public funding

The air shaft could be opened for abseiling to bring visitors

Create a huge momentum to finish the job!

Tentative offer of some funding already;

Could provide the “Match Funding” essential for most bids

Mae’r dudalen hon yn fwriadol wag

# SCRUTINY

# FORWARD WORK PROGRAMME

# March 2021 – 2022



Tudalen41

Eitem yr Agenda8

# Regeneration and Sustainable Development Scrutiny Committee (All starting 10am unless otherwise stated)

| Meeting Date | Agenda Item | Contact Officer |
|---|---|---|
| **2021** | | |
| 16th April | Trends in Domestic Abuse | Claire Jones/Elinor Wellington |
| | | |
| 14th May | Update Report on Active Travel | Ceri Morris |
| | | |
| 25th June | Please see Cabinet Board FWP for Items | |
| | | |
| 30th July | Please see Cabinet Board FWP for Items | |
| | | |
| 10th September | Meeting moved to the following week (17th September) | |
| | | |
| 17th September | Update on the Audit Wales NPT Action Plan | Simon Brennan |
| | | |
| 22nd October | Community Benefits | Simon Brennan / Claire Roach |
| | Rhondda Tunnel Society Presentation (Deferred to 3rd December) | Mr Tony Moon and Mr Stephen Mackey |

| | | |
|---|---|---|
| 3rd December | Asset Sponsorship – Update on progression | Andrew Griffiths |
| | Rhondda Tunnel Society Presentation | Mr Tony Moon and Mr Stephen Mackey |
| **2022** | | |
| 14th January | Destination Marketing Campaign – Follow up | Simon Brennan / Karleigh Davies |
| | Burrows Yard Update | Simon Brenan |
| 4th March | Street Names – Policy and Procedures | Joy Smith / Ross Williams |
| | Update on Regeneration Projects | Simon Brennan |
| | Update on European Funding, Levelling Up Fund and Shared Prosperity Fund | Simon Brennan |
| 8th April | Items to be confirmed | |
| | | |



**<u>To be confirmed:</u>**

- Update on the Rail Centre Development
- Land Asset Management

**<u>Additional:</u>**

- Invite S&E Scrutiny Members to 4th March meeting